**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: RE/182/2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
SeneddFinance@senedd.cymru

15 Mehefin 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mai ynghylch adolygiad y Pwyllgor Cyllid o'r Datganiad o Egwyddorion y mae'r Pwyllgor yn disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol gadw atynt wrth wneud cynigion cyllidebol.

Gofynnoch am fy marn ar y gyllideb atodol/proses amcangyfrifo ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol ac a yw'r trefniadau presennol yn darparu digon o hyblygrwydd neu a ellid cryfhau'r broses drwy'r Rheolau Sefydlog neu drwy wneud newidiadau i'r egwyddorion eu hunain.

Yn fy marn i, mae'r Datganiad o Egwyddorion yn parhau i fod yn ganllaw defnyddiol i gyrff a ariennir yn uniongyrchol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben. Tystiolaeth o hyn yw'r lefel ddefnyddiol o wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol wrth iddynt gyflwyno gwybodaeth gyllidebol i'r Pwyllgor cyn i gyllidebau atodol gael eu cyflwyno. Er nad ydw i o reidrwydd yn gweld angen ffurfioli'r arfer hwn drwy wneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, byddwn yn barod i gefnogi cynnig o'r fath, ar yr amod nad yw unrhyw newidiadau yn cwtogi nac yn cyfyngu ar amserlenni Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi cyllidebau.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda Phwyllgorau'r Senedd i gynhyrchu gwybodaeth gyllidebol yn y modd mwyaf tryloyw ac agored posibl. Yn hyn o beth, byddaf yn parhau i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf ar wahanol ffactorau y gellir eu defnyddio i lywio’r broses o gynllunio cyllidebau yn y dyfodol. Byddaf wrth gwrs yn parhau i fynychu'r Pwyllgor Cyllid i gefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor ar ein cyllidebau blynyddol ac atodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.